'steddfota

Cylchlythyr Cymdeithas Eisteddfodau Cymru

Rhif 35 | Hybu eisteddfodau, cynnal cymunedau | Gorffennaf 2015

EISTEDDFOD POWYS – CROESOSWALLT 2016

Croesoswallt, cartref Eisteddfod Powys 2016.

Am y tro cyntaf erioed, fe dybir, bydd gan Eisteddfod Talath a Chadair Powys stondin ar Faes yn yr Eisteddfod Genedlaethol.
Mae hyn yn bennaf oherwydd bod dalgylch Eisteddfod Powys a thalgylch yr Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod eleni fwy neu lai yr un. Yn sgil y ffaith bod caredigion yr ardal wedi bod yn brysur yn casglu arian tuag at goffrau'r Brifwyl ers dwy flynedd, 'doedd neb yn awyddus iawn i dderbyn Eisteddfod Powys yn 2016, na'r gwaith o godi arian tuag ati, nes i ardal Croesoswallt benderfynu ddod i'r adwy a'i chroesawu.
Mae Cymrydoriaeth Eisteddfod Powys felly wedi trefnu bod ganddynt stondin ar Faes yr Eisteddfod Genedlaethol i hybu'r eisteddfod y flwyddyn nesaf. Yn hwb ychwanegol mae swyddogion yr Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod yn garedig iawn wedi rhoi sêl bendith i Eisteddfod Powys godi arian ar y Maes. Cofiwch alw draw.

Uchod: Tlws yr Ifanc, Eisteddfod Powys, Isod: Cadeirio 2013

DAU LOGO NEWYDD SBON

EISTEDDFOD GADEIRIOL Y TALWRN 2015

EISTEDDFOD 1947 BANCFFOSFELEN

Yn dilyn ôl troed Eisteddfodau Maenlcochog, Llandudoch ac Uwchmynydd mae Eisteddfod Bancffosfelen ac Eisteddfod Gadeiriol Y Talwrn wedi gofyn i'r Gymdeithas am logo. Mae'r rhain bellach yn ymddangos ar glawr eu rhaglenni sydd hefyd wedi eu dylunio, yn rhad ac am ddim, gan y Gymdeithas.
Cais yn syth drwy'r Pwyllgor a gafwyd gan Y Talwrn ond ar gyfer logo Bancffosfelen cynhaliwyd cystadleuaeth yn lleol. Bancghen ifanc o'r enw Scott Eckley aeth â hi a rhoddwyd ei ddarlun gwreiddiol o i Mei, ein Swyddog Datglygu i'w ail-greu yn ddigidol. Mae'r logo yn cynnwys blwyddyn codi'r eisteddfod yn 1947.

CYFRINACH FACH YN EISTEDDFOD FAWR Y TALWRN

Yn dilyn cais gan Bwyllgor Eisteddfod y Talwrn, Môn i ddylunio eu rhaglen, daeth i'r amlwg bod cyfrinach yn llechu yng nghanol y cystadlaethau:

15. Cystadleuaeth Newydd i'w datgelu ar y Noson
Gwobr: Hyd at £25 i'w rannu

Tybed beth ar y ddaear yw'r gystadleuaeth arbennig hon sy'n cynnig hyd at £25?
Rhag rhoi Mr Martin Samuel, Ysgrifennydd yr eisteddfod, mewn cornel, penderfynwyd peidio â'i holi, felly fe fydd yn rhaid i ni aros tan Dachwedd y 7fed 2015 i gael yr ateb!

Tynnu sylw yn Llandudoch

Yn dilyn cael logo newydd gan y Gymdeithas aeth Eisteddfod Gadeiriol llandudoch ati i greu baner fawr liwgar. Gosodwyd hon mewn man amlwg iawn ger y pentref i hysbysebu'r ffaith bod yr Eisteddfod yn cael ei chynnal o fewn yr wythnos. Heb os nac oni bai dyma ddull ymarferol iawn o ddenu cynulleidfa a chystadleuwyr. Cysylltwch â Mei os hoffech chi logo.

'steddfota DRWY'R POST

Hoffech chi dderbyn copi o 'Steddfota drwy'r post? Cysylltwch â **Shân** neu **Mei** neu ewch i'n gwefan.

mynnu gair

Os hoffech chi ddefnyddio gwasanaeth ein Swyddogion Datblygu mae croeso i chi gysylltu â nhw yn y cyfeiriadau isod:

Swyddog Datblygu y De
Shân Crofft
shân@steddfota.org
02920 213596
07770 870605

Swyddog Datblygu'r Gogledd
Meirion MacIntyre Huws
mei@steddfota.org
01286 660 364
07887 654 251

Cofiwch hefyd am ein gwefan:
www.steddfota.org
ble ceir yr hanesion diweddaraf o fyd yr eisteddfodau.

Ffrindiau 'steddfodol

Cofiwch, am ba bynnag reswm, bod modd i chi gysylltu â ni ar *Facebook:*
Cymdeithas Eisteddfodau Cymru

galw am luniau

Diflas iawn fyddai'r newyddlen hon, yn ogystal â'n gwefan, heb luniau da. Cofiwch anfon unrhyw luniau sydd gennych o fyd yr eisteddfodau at Mei neu Shân.

GALWCH I'N GWELD YM MEIFOD!

GWEITHGAREDDAU'R GYMDEITHAS YN YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL ELENI

GWEITHDY RAP YN Y LOLFA LÊN

Dewch i gael hwyl yn odli, cyflythrennu, rapio a chyfrannu at gerdd unigryw gyda Bardd Plant Cymru, Aneirin Karadog.
Trefnir ar y sesiwn cyd â Llenyddiaeth Cymru.

HELFA DRYSOR

Y dilyn llwyddiant y gystadleuaeth hon yn Eisteddfod Genedlethol yr Urdd yng Nghaerffili mae'r Gymdeithas am ei chynnal ym Meifod hefyd – ond gyda chwestiynau cwbl wahanol wrth gwrs! Galwch heibio i roi cynnig ar ein Helfa Drysor Eisteddfodol, helfa wahanol iawn i'r arferol! Gosodir cwestiynau amrywiol fel *'Beth yw rhif ffôn Ysgrifennydd Eisteddfod Y Tymbl?', Pa rif yw Eisteddfod Llanfachreth ar ein map Eisteddfodau?'*. Fe fydd yr atebion i gyd i'w canfod ar ein stondin yn rhywle, ar bosteri, mewn rhestrau testunau ac mewn lluniau. Cynigir £10 o wobr bob dydd.

'RHYWUN MAWR YN Y MAN' – LLENORION Y DYFODOL

Ddydd Mercher, Awst 5, am 12:00 yn y Lolfa Lên ar Faes yr Eisteddfod bydd darlleniadau a gair neu ddau am y profiad o gystadlu mewn 'steddfodau gan griw dethol o lenorion ifanc.
Yn eu holi fydd y Prifeirdd Twm Morys a Rhys Iorwerth. Trefnir ar y cyd â Llenyddiaeth Cymru.

TYNNU'R RAFFL FAWR

Yn garedig ddigon, yng nghanol ei phrysurdeb fel Cadeirydd Pwyllgor Gwaith yr Eisteddfeod Genedlaethol eleni mae Beryl Vaughan wedi cytuno i alw draw i'r stondin i dynnu'r Raffl fawr b'nawn Sadwrn ola'r Brifwyl.
Cofiwch bod digon o gyfle ar ôl i brynu tocynnau.

CYSTADLEUAETH DDYDDIOL– £10

Y gystadleuaeth ddyddiol ar y stondin elelni yw:
Dwy linell yn odli, ar y testun: 'Y Maes'
Bob dydd fel fydd rhai o gymeriadau rhaglenni plant S4C yn dod i feirniadu.

GALW AM RAGLENNI

Mae nifer fawr o bobl yn troi i mewn i'n stondin i godi swp o raglenni eisteddfodol.
Os yw'ch rhaglen chi wedi dod o'r wasg mae croeso i chi anfon pentwr at Shân neu Mei ac fe sicrhawn bod cyflenwad ar gael ar y stondin drwy'r wythnos.

CYFARFOD BLYNDDOL

Cynhelir cyfarfod blynyddol Cymdeithas Eisteddfodau Cymru ar Faes yr Eisteddfod:

Dydd Mawrth, 4 Awst am 4:30 yh ym Mhabell y Cymdeithasau 2

Yno, ymyg pethau eraill bydd y Gymdeithas yn cyflwyno tystysgrifau i anrhydeddu'r gwirfoddolwyr hynny sydd wedi ymroi mor ddygn a selog i'w heisteddfodau lleol dros nifer fawr o flynyddoedd.

Yn ogystal bydd cyfle i wybod mwy am yr hyn mae'r Gymdeithas wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Dyma gyfle i drin a thrafod gwaith y Gymdeithas byd yr eisteddfodau yn gyffredinol. Mae croeso cynnes i bawb.

o fyd yr eisteddfodau

Dyma gasgliad o gystadleuwyr a buddugwyr yn rhai o'r eisteddfodau lleol yn ystod y misoedd diwethaf.

***Parti Canu dan 12 lleol**. 1af Ysgol Gynradd yr Hendy, yn Eisteddfod yr Hendy.*

***Lyn Ebenezer**, Pontrhydfendigaid - enillydd y Goron yn Eisteddfodau Teulu James Pantyfedwen Pontrhydfendigaid.*

*Unawd dan 8 lleol yn Eisteddfod yr Hendy. 1af **Erin Hill** Ysgol Bryniago Pontarddulais, 2il **Gwennan Davies** Ysgol Babanod Llangennech, 3ydd **Liam Phillips** Ysgol Babanod Langennech.*

***Aron Wyn Parry**, Dolgellau - enillydd Unawd 15-19oed, Unawd Alaw Werin dros 15 oed a'r unawd Cerdd dant dros 15 oed, yn Eisteddfod Dyffryn Conwy, Llanrwst*

Llongyfarchiadau!

***Arthur Morgan Thomas**, Porthmadog - enillydd y Gadair yn Eisteddfod Dyffryn Conwy, Llanrwst*

*Enillydd y Gadair yn Eisteddfod yr Hendy **Huw Dylan Owen**, Treforys gyda'r beirniad Eurig Salisbury.*

Llefaru dan 8 lleol yn Eisteddfod yr Hendy. 1af ***Heledd Evans*** *Ysgol Bryniago Ponarddulais 2il,* ***Cari Jones*** *Ysgol Babanod Llangennech, 3ydd* ***Steffan Williams*** *Ysgol Babanod Llangennech.*

Mali Elwy *- enillydd Llefaru Bl. 7.8 a 9 yn Eisteddfod Dyffryn Conwy, Llanrwst*

Dr Godfrey Williams*, Pontcysyllte - enillydd yr Emyn Dôn gyda'r beirniad Dilwyn Price yn Eisteddfod Dyffryn Conwy, Llanrwst.*

Adam Gilbert *o Aberteifi yn derbyn Tlws Her Parhaol Moc Morgan gan y diweddar Moc Morgan am y gystadleuaeth 'Sadwrn y Sêr' yn Eisteddfodau Teulu James Pantyfedwen Pontrhydfendigaid.*

Llefaru dan 15. 1af ***Hanna Medi Davies*** *Pencader, 2il* ***Steffan Leonard Treforys****, 3ydd* ***Luke Rees*** *Pontantwn, 3ydd* ***Megan Teleri Davies*** *Llanarth yn Eisteddfod yr Hendy*

Rhiannon Elidan Hughes*, Llanddoged, enillydd Tlws y Cerddor dan 25 oed yn Eisteddfod Dyffryn Conwy Llanrwst.*

Llongyfarchiadau!

Y GYMDEITHAS YN EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD

Fel arfer, roedd gan y Gymdeithas stondin ar Faes Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerffili. Cafwyd cwmni nifer o bobl yn ymweld â ni a bu'r ddwy gystadleuaeth yn llwyddiant. Dyma ganlyniadau'r rheiny.

ENILLWYR Y GYSTADLEUAETH DDYDDIOL

Criw 'Ysbyty Hospital', S4C fu'n beirniadu bob dydd.

Enillydd Dydd Llun
Erin Griffiths, Talgarreg – 'Hwyl yn cystadlu a hwyl yn y gwersylloedd'

Enillydd Dydd Mawrth
Macsen Parri, Y Bala – 'Cymdeithasu yn Gymraeg, Cystadlu, Tyfu fyny yn Gymraeg, Gwneud ffrindiau oes, Chwarae yn Gymraeg'

Enillydd dydd Mercher
Syfi Owen, Caerdydd – 'Cystadlu, Cwmnia, Cymru'

Enillydd dydd Iau
Nanw Gwenllian Edwards, Llanuwchllyn – 'Mynd rywnd stondins'

Enillydd dydd Gwener
Mary Sims, Merthyr Tudful – 'Dwi wedi bod yn yr Urdd ers yn ddeg oed a nawr dwi'n 80 oed. Ro'n i'n byw yn Llundain. Dysgais y Gymraeg yn y polytechnic am 3 mis'

Enillydd dydd Sadwrn
Bedwyr Rees, Hermon - 'Cyfle da'

YR HELFA DRYSOR EISTEDDFODOL PWY AETH Â HI:

Bu cystadlu brwd ar yr Helfa Drysor, dyma'r enillwyr:

DYDD LLUN
Elliw Mair, Ynys Môn

DYDD MAWRTH
Alis Mabbutt, Llanbadarn, Aberystwyth

DYDD MERCHER
Miriam Llwyd Davies, Llandre, Aberystwyth

DYDD IAU
Sara Baggott, Drefach, Sir Gaerfyrddin

DYDD GWENER
Davinia Davies, Bancffosfelen, Sir Gaerfyrddin

CYFARFOD DE POWYS

Shân (Swyddog Datblygu'r De), Annette Thomas (Eisteddfod Capel Uchaf), Mary Robinson (Eisteddfod Trallong), Megan Price (Eisteddfod Treodrhiwdalar) a Susan Price (Eisteddfod Llanwrtyd)

Fel sydd yn arferol bellach, mae'r Gymdeithas yn cynnal cyfarfodydd hyd a lled y wlad i roi gwybod i eisteddfodau lleol sut y gall y Gymdeithas fod o gymorth iddynt. Yn ddiweddar bu Shân, un o'n Swyddogion Datblygu yn cyfarfod â chynrychiolwyr o eisteddfodau De Powys yng Ngwesty'r Castell, Aberhonddu. 'Roedd tipyn o drafod a chwestiynnu, a bu'n gyfle da i'r cynrychiolwyr rannu eu profiadau wrth drefnu eu heisteddfodau. Sawl paned a llond plât o fisgedi yn ddiweddarach, aeth pawb adre' gyda'i becyn gwybodaeth a syniad da iawn o beth sydd gan y Gymdeithas i gynnig Cofwich gysylltu os ydych am i Mei neu Shân gynnal cyfarfod tebyg yn eich ardal chi.

Diolch o galon

Pe bai'r Gymdeithas yn rhoi gwobr i'r gwerthwr raffl gorau erioed, Florrie Roberts o Benrhiwllan, ger Llandysul fyddai'r enillydd a hynny ben ac ysgwydd uwch y gweddill. Mae Florrie, 82 oed, wedi gwerthu gwerth cannoedd o bunnau o docynnau raffl ar ran y Gymdeithas. Fis Mehefin llwyddodd i werthu 250 mewn llai na phythefnos! Er ei bod heibio i oed ymddeol mae'n dal i weithio yn y Mart yng Nghastellnewydd Emlyn yn paratoi bwyd gan ei bod yn mwynhau cwrdd â phobl. Mae'n mynd i chwarae Bingo yn rheolaidd, felly'n cael y cyfle da i werthu llu o docynnau raffl. Alun Roberts oedd ei gŵr – un a fu'n cefnogi eisteddfodau ardal eang am flynyddoedd maith. Roedd ganddo lais tenor bendigedig. Bu'r ddau'n stiwardio yn y Genedlaethol am gyfnod hirfaith a Florrie wedi parhau i wneud am flynyddoedd yn dilyn marwolaeth Alun. Mae'r Gymdeithas yn diolch o waelod calon i chi Florrie am eich gwaith clodwiw.

O'R OES A FU

Gyda sawl eisteddfod bellach dan bwysau ariannol, diddorol iawn yw'r pwt isod. Daw'r dyfnyniad o hen bapur newydd *Y Gwladgarwr*, 13 Chwefror 1875, sy'n nodi bod cwynion wedi bod yn y papur am natur eisteddfodau'r De i'w cymharu â rhai'r Gogledd!

"Fisoedd lawer yn ôl, bu amryw o'n gohebwyr yn gwrthdystio yn gryf yn erbyn y dull presenol o gario eisteddfodau yn mlaen yn y Deheudir. Y gwir am dani, y mae yr hen sefydliad cenedlaethol hwn wedi cael ei farchogaeth yn ddidrugaredd bellach am hir flynyddau fel cyfrwng i wneyd arian, a hyny lawer pryd at ddybenion personol ac annghyoedd. Prif amcan ein hynafiaid yn nghynaliad yr Eisteddfod ydoedd meithrin a diwyllio galluoedd y genedl mewn llên a barddas, ac y mae yn amheus genym a ydoedd arian yn cael eu codi yn nyddiau boreu yr Eisteddfodau am fod yn bresenol ynddynt.
Yr hyn a achwynai ein gohebwyr fwyaf yn ei herwydd ydoedd, fod yr Eisteddfod yn y Deheudir wedi ymdebygoli i gyngherdd, ac mai canu oedd yn cael prif sylw y pwyllgorau. Diau fod llawer o wir yn hyn, ac yr oedd gwrid yn codi i'n gwynebau weithiau wrth gymharu rhai o'n Heisteddfodau yn y Deheudir i'r rhai a gynelid yn y Gogledd. Ond y mae yn dda genym weled ein bod ninau o'r diwedd yn y De wedi rhoddi cam yn yr iawn gyfeiriad, ac y mae gobaith yr achubir yr hen sefydliad rhag cael cam ar ddwylaw ei ffug-gefnogwyr."

Mae pethau wedi newid llawer!

calendr eisteddfodau

cefnogwch!

Cofiwch: mae modd lawrlwytho Rhestrau Testunau llawer iawn o eisteddfodau oddi ar wefan y Gymdeithas hefyd.

MEDI			
Medi 11eg a 12fed	Eisteddfod Gadeiriol Tregaron	Catrin Medi Pugh	07973 875068
Medi 19eg	Eisteddfod Gadeiriol Y Tymbl	Anwen Evans	01269 833568
Medi 19eg	Eisteddfod Gadeiriol Cwmystwyth	Mrs. Mair Davies	01970 890245
Medi 25ain	Eisteddfod Ddwyieithog Pobl Hŷn Môn	Helen Ellis	01248 724970
Medi 26ain	Eisteddfod Gadeiriol Felinfach	Meinir Lewis	01570 470050
Medi 26ain	Eisteddfod Gadeiriol Llanwrtyd	Susan Price	01591 610303
HYDREF			
Hydref 2il	Eisteddfod Calfaria, Garnant	G Davies	01269 823138
Hydref 2il	Eisteddfod Stesion Trawsfynydd	R.Derfel Roberts	07833 506500
Hydref 3ydd	Eisteddfod Bethel Melin y Coed	Anwen Hughes	01492 640288
Hydref 3ydd	Eisteddfod Gadeiriol Trefeglwys	Margaret Jones	01686 430474
Hydref 10fed	Eisteddfod Gadeiriol Llanarth	Catrin Bellamy Jones	01545 580279
Hydref 10fed	Eisteddfod Y Plant, Llandrindod	Mrs Gill Wilson	01597 824726
Hydref 10fed	Eisteddfod Troedrhiwdalar	Megan Price	01591 620640
Hydref 16eg	Eisteddfod y Cymoedd yn Ystrad Mynach	Eirlys a Gwilym Thomas	01443 812820
Hydref 16eg	Eisteddfod Ieuenctid Marian-glas	Ruth Jones	01248 853957
Hydref 17eg	Eisteddfod Gadeiriol Bancffosfelen a Chrwbin	Davinia Harries	01269 870490
Hydref 23ain	Eisteddfod Gadeiriol Felindre, Abertawe	Helen Evans	01792 883252
Hydref 24ain	Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen a'r Cylch	Eirlys M. Hughes	01286 870898
Hydref 31ain	Eisteddfod Gadeiriol Pumsaint	Mair Williams	01558 650292
TACHWEDD			
Tachwedd 6ed	Eisteddfod Llandyrnog	Iestyn Jones-Evans	01824 790313
Tachwedd 6ed	Eisteddfod Ciliau Aeron	Iris Hawkins	01570 470554
Tachwedd 7fed	Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog	Geraint Roberts	01267 229047
Tachwedd 7fed	Eisteddfod Gadeiriol Llanrhaeadr ym Mochnant	Menna Richards	01691 780355
Tachwedd 7fed	Eisteddfod Gadeiriol Y Talwrn	Martin Samuel Jones	07743 413551
Tachwedd 14eg	Eisteddfod Cwmdu	Jean Huxley	01874 730282
Tachwedd 20/21ain	Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen	Lowri Watcyn Roberts	07815 093955
Tachwedd 21ain	Eisteddfod Gadeiriol Y Treuddyn	Ceinwen Parry	01352 771333
Tachwedd 28ain	Eisteddfod Gadeiriol Abergorlech	Heulwen Francis	01558 685398
Tachwedd 28ain	Eisteddfod Trallong	Mary Robinson	01874 624350
Tachwedd 28ain	Eisteddfod Y Foel	Dawn Jones	01938 820272
Tachwedd 28ain	Eisteddfod Gadeiriol Aelhaearn	Mary C. Jones	01286-660768